

Atodiadau 1

**Aseiad o Ddigonolrwydd
Cyfleoedd Chwarae**

Crynodeb Gweithredol

Mawrth 2013

1.0 Cyflwyniad

Hawliau'r Plentyn

- 1.1 Trwy Strategaeth Chwarae Sir y Fflint 2011-2014 mae Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod ac yn hyrwyddo hawl sylfaenol plant i chwarae, fel y cydnabyddir gan y Cenhedloedd Unedig a Llywodraeth Cymru.

Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

- 1.2 Derbyniodd y Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) gydsyniad brenhinol yn 2010. Nid darpariaeth chwarae sefydlog â staff yn unig a gynhwysir yn y mesur. Mae'n ymwneud mwy ag amser, lle ac, yn y bôn, y rhyddid a roddir i blant chwarae. Mae asesu p'un a yw plant yn cael mynediad at gyfleoedd chwarae digonol yn eu cymuned leol yn graidd i'r dull gweithio hwn.
- 1.3 Roedd y Mesur yn mynnu fod awdurdodau lleol yn cynnal asesiad o ddarpariaeth chwarae i nodi p'un a oes digon o gyfleoedd chwarae. Wrth asesu darpariaeth chwarae mae'n bwysig ystyried pa rwystrau sydd angen eu goresgyn er mwyn gwella'r ddarpariaeth chwarae i blant sy'n ymarfer eu hawl i chwarae. Ymateb statudol Cyngor Sir y Fflint i ofyniad LIC am asesiad o ddigonolrwydd chwarae yw'r Asesiad hwn.

2.0 Dull Gweithio Sir y Fflint

- 2.1 Mae dull Cyngor Sir y Fflint o gynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi'i nodi'n fanwl yn yr amserlen prosiect isod.

2.2 Amserlen Prosiect yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Tachwedd 2012 Rheoliadau Llywodraeth Cymru'n dod i rym

Rhagfyr 2012 Y Gwasanaeth Hamdden yn ffurfio Gweithgor ar gyfer yr asesiad

Rhagfyr 2012 Cynllunio a pharatoi ar gyfer darparu'r Prosiect

- Rhagfyr 2012 Dosbarthu holiaduron i'r cyhoedd (system Snap)
- Rhag – Chwe 2013
Casglu tystiolaeth gyda gwasanaethau'r Cyngor a'r cyhoedd
- Rhag – Chwe 2013
Ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol e.e. ysgolion a'r trydydd sector
- 31 Ion 2013 Digwyddiad Ymgysylltu â Rhanddeiliaid Allweddol
- 1 Mawrth 2013 Cyflwyno drafft cyntaf o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i Lywodraeth Cymru
- 14 Mawrth 2013 Cyfarfod Arolygu a Chraffu – Cyflwyno'r Adroddiad – Archwiliad o'r Asesiad, Asesiad a Chynllun Gweithredu i'w ystyried a chael sylwadau
- 23 Ebrill 2013 Cyfarfod Cabinet – Cyflwyno'r Adroddiad Archwiliad o'r Asesiad, Asesiad a Chynllun Gweithredu i'w gymeradwyo a'i fabwysiadu

2.3 Mae'r broses asesu wedi cynnwys ymdrech sylweddol i ymysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol, oddi mewn a thu allan i'r Cyngor a gyda'r cyhoedd, fel y gwelir isod:

1. Hyrwyddo proses yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae
2. Ymgysylltu â Chyfarwyddiaethau a Phartneriaethau Strategol Cyngor Sir y Fflint
3. Datblygu Holiadur Ar-lein (system Snap)
4. Ymgysylltu ag ysgolion
5. Ymgysylltu â'r trydydd sector gan gynnwys Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
6. Gweithdy / Digwyddiad Rhanddeiliaid Asesiad Sir y Fflint

- 2.4 Disgwylir i Adroddiad Drafft o'r Asesiad a'r Cynllun Gweithredu gael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 1 Mawrth 2013 ac i ddilyn bydd dau gyfarfod allweddol yn cael eu cynnal – Arolygu a Chraffu ar 14 Mawrth 2013 a Chabinet Cyngor Sir y Fflint ar 23 Ebrill 2013. Dim ond ar ôl y cyfarfodydd hyn ac ar ôl i'r Aelodau benderfynu cymeradwyo'r Adroddiad a'r Cynllun Gweithredu y bydd yr adroddiad yn cael ei ryddhau i'r cyhoedd.

3.0 Prif Adroddiad

- 3.1 I osod cyd-destun yr asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae, darparodd Llywodraeth Cymru becyn offer a oedd yn cynnwys 111 o feini prawf allweddol i'w hasesu. Defnyddiwyd y meini prawf hynny fel ffrâm i ymateb y Cyngor. Mae pob un o'r 111 maen prawf wedi'u hasesu o fewn system CAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) ar sail perfformiad dros y 12 mis diwethaf. Gweler esboniad o'r system CAG isod:

Coch - Ni atebwyd y maen prawf
Ambr - Atebwyd y maen prawf yn rhannol
Gwyrdd - Atebwyd y maen prawf yn llawn

- 3.2 I ychwanegu at y system asesu CAG mae cyfres o saethau wedi'u defnyddio i roi syniad o'r modd y disgwylir i'r mater newid yn y dyfodol agos, fel a ganlyn:

Saeth i fyny - Mae gwelliannau'n debygol dros y 12 mis nesaf.
Saeth ar draws - Disgwylir i'r sefyllfa aros yr un fath dros y 12 mis nesaf.
Saeth i lawr - Disgwylir i'r mater waethygu dros y 12 mis nesaf

- 3.3 Mae'r broses wedi nodi amrywiaeth eang o ganlyniadau lle mae materion wedi'u nodi'n Goch, Gwyrdd neu'n fwy cyffredin Ambr ond gan ddangos gwelliant / gwaethygiad tebygol yn y dyfodol.
- 3.4 Mae'r 111 o feini prawf wedi'u gosod o fewn Materion A-I fel a ganlyn:

Mater A Poblogaeth
Mater B Darparu ar gyfer anghenion amrywiol
Mater C Lle sydd ar gael i blant chwarae
Mater D Darpariaeth dan oruchwyliaeth
Mater E Costau darpariaethau chwarae
Mater F Mynediad at ddarpariaeth lle
Mater G Sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae
Mater H Ymgysylltiad a chyfranogiad cymunedol
Mater I Chwarae o fewn polisiau ac agendâu gweithredu perthnasol

4.0 Cynllun Gweithredu'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

4.1 Mae proses yr Asesiad wedi nodi fod nifer o gamau gweithredu y gallai Cyngor Sir y Fflint eu cymryd i wella cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc. Mae'r camau hyn wedi'u cyflwyno ym mhrif gorff yr adroddiad (Materion A-I) ac wedi'u hasesu'n unigol a'u gosod mewn un o dair Atodlen Cynllun Gweithredu fel a ganlyn:

Atodlen 1: Dyma Gynllun Gweithredu Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2013-2014 Cyngor Sir y Fflint

Atodlen 2: Dyma gamau gweithredu a allai gael eu darparu ar ôl 2014 pe bai adnoddau staff ychwanegol yn cael eu darparu

Atodlen 3: Dyma gamau gweithredu a allai gael eu darparu ar ôl 2014 pe bai adnoddau staff a/neu gyllid ychwanegol yn cael eu darparu

4.2 Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu trwy broses asesu di-duedd i nodi camau gweithredu 'cost isel' neu 'ddim cost' a allai gael eu darparu dros y 12 mis nesaf yn defnyddio cyllidebau presennol ac amser swyddogion presennol. Yn hyn o beth mae Atodlen 1 y Cynllun Gweithredu'n cael ei ystyried yn "Enillion Sydyn".

- 4.3 Mae Atodlen 2 yn cynnwys 57 o gamau gweithredu unigol sydd wedi'u hasesu ac a fydd yn methu â chael eu darparu dros y 12 mis nesaf. Os yw'r camau hyn am gael eu darparu yn y cyfnod ar ôl 2014 bydd angen adnoddau ychwanegol.
- 4.4 Bydd y materion yn Atodlen 2 yn mynnu darpariaeth staff ychwanegol yn yr Uned Chwarae i gydgysylltu'r gwaith ar draws yr Awdurdod. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y costau, yn seiliedig ar asesiad pen bwrdd amlinellol, yn £154,000 o gyllid newydd.
- 4.5 Mae Atodlen 3 yn cynnwys 37 o gamau gweithredu unigol sydd wedi'u hasesu ac sy'n methu â chael eu darparu dros y 12 mis nesaf. Os yw'r camau hyn am gael eu darparu yn ystod y cyfnod ar ôl 2014 bydd angen darparu adnoddau staff a/neu ariannol ychwanegol.
- 4.6 Mae angen nodi nad yw'r cyllid ychwanegol sydd ei angen i ariannu holl gamau gweithredu Atodlen 3 wedi'i nodi yn yr amser sydd ar gael. Dylai'r mater hwn fod yn bwnc trafod rhwng Cyngor Sir y Fflint a Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

5.0 Y Camau Nesaf

- 5.1 Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi rhoi cyfle i Gyngor Sir y Fflint adolygu ei ddull presennol o ddarparu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifanc.
- 5.2 Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn yn cael eu cyflwyno mewn manylder sylweddol yn y prif adroddiad. Mae cyfyngiadau amlwg i'r canfyddiadau yn yr adroddiad a disgwylir i hyn ddarparu sail i adolygiadau yn y dyfodol a fydd, ar ôl cael mwy o amser, yn arwain at wella a datblygu'r archwiliad sylfaenol cyntaf hwn.
- 5.3 Mae'r camau gweithredu a gyflwynir yn Atodlen Un yn cynrychioli'r Cynllun Gweithredu ar gyfer cyfnod 2013/2014. Mae'r camau gweithredu a restrir yn yr Atodlenni eraill (2 a 3) yn anhebygol iawn o gael eu gweithredu heb ddarpariaeth adnoddau digonol.
- 5.4 Ar ôl i'r adroddiad Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gael ei gymeradwyo bydd ar gael i'r cyhoedd a

bydd unrhyw adborth yn cael ei ddefnyddio fel sail i gamau gweithredu yn y cyfnod 2013-2014. Mae hon yn broses barhaus a fydd yn cael ei monitro a'i hadolygu i sicrhau fod y camau gweithredu'n ceisio mynd i'r afael â'r anghenion cymunedol a nodwyd.